

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau a gynhaliwyd
Nos Iau, 8 Tachwedd 2018 yn Neuadd Pentref Carmel**

**Minutes of the Cemeteries & Assets Committee held Thursday, 8 November
2018 at Carmel Village Hall**

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Alan Patterson; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones
Helen Hughes.

David Roberts, Rheolwr Cweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council Admin & Finance Manager.

1 Croeo'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Yn absenoldeb Cyng. Clive Bayley, Cadeirydd y Pwyllgor etholwyd Cyng. Alan Patterson i'r gadair am
y noson. Croeaswodd pawb i'r cyfarfod. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

In the absence of Cllr. Clive Bayley, the Committees Chairman Cllr Alan Patterson was nominated as
Chairman for the evenings proceedings.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn
bresennol.

No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present

4 Damwain i Loches Bws Cae'r Moel, Carmel / *Damage to Bus shelter at Cae'r Moel, Carmel*

Dosbarthwyd yr adroddiad canlynol gan y Rheolwr

Damwain Lloches Bws Cae'r Moel, Carmel ar Ddydd Gwener, 2 Tachwedd 2018

Adroddiad Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor – 8 Tachwedd 2018

Gwener 2 Tachwedd - Cyngor Gwynedd wedi derbyn galwad gan un o weithwyr Brenig fod tractor
wedi taro'r lloches ac wedi gyrru i ffordd heb stopio.

Gwener 2 Tachwedd - Cyngor Gwynedd yn anfon e-bost i'r Cyngor Cymuned gyda manylion y difrod,
y tyst a rhif y cerbyd.

Sadwrn 3 Tachwedd - Rheolwr wedi cysylltu gydag Elfyn Ellis, Adeiladwr. Cafwyd cyfarfod ar y safle.
Trawiad mor hegar nes iddo symud dal wal o'i sylfaen. To yn rhydd. Waliau oll wedi cracio. Elfyn o'r
farn y gellid ei atgyweirio ond fod y strwythur yn beryglus yn ei gyflwr presennol
Cytunwyd i Elfyn rhoi ffens o amgylch y safle i rwystro unrhyw fynediad iddo. DR am gysylltu gydag
Elfyn unwaith y bydd yna benderfyniad ar y ffordd ymlaen gan y Cyngor.

Sadwrn 3 Tachwedd - DR wedi cysylltu gyda'r heddlu. Rhoddwyd holl fanylion iddynt. Addawyd ffonio yn ôl.

Sul 4 Tachwedd – DR wedi cysylltu gyda'r heddlu. Siarad gyda PC Mari Brothreidge. Rhoddwyd y manylion llawn iddi.

Sul 4 Tachwedd - DR wedi cysylltu gyda chwmni yswiriant y Cyngor, Zurich trwy e-bost

Mawrth 6 Tachwedd - PC Mari Beardmore (PC1338) wedi cysylltu trwy'r ffon gyda DR. Methu a datgelu enw'r gyrrwr/perchennog y tractor oherwydd rheolau GDPR. Methu datgan gyda sicrwydd os ydi'r heddlu yn erlyn y perchennog/gyrrwr. Bydd rhaid i'r Cyngor gysylltu gyda'i yswirwyr a rhoi rhif y tractor iddynt.

Mercher 7 Tachwedd - Zurich wedi ffonio DR. Wedi cyfeirio'r mater i "loss adjustor" (Vericlim) fel mater o frys. Bydd Zurich yn adennill y costau gan y gyrrwr/perchennog trwy ddefnyddio cwmni preifat.

Mercher 7 Tachwedd - Dafydd Gareth Jones, Swyddog Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru we cysylltu trwy e-bost yn gofyn a oedd un o eiddo'r Cyngor yn y Fron wedi ei daro gan dractor. Yn debygol mai un o tractors y chwarel oedd yn gyfrifol

Mercher 7 Tachwedd - Uned Cludiant Integredig Cyngor Gwynedd wedi cael galwad gan riant o Garmel gyda'i phlant yn defnyddio'r lloches bws. Yn gofyn "beth mae Cyngor Gwynedd yn gwneud i l'el lloches newydd ar y safle". CG wedi cyfeirio'r cwynwr at y Cyngor Cymuned. DR heb dderbyn unrhyw gyswllt.

Iau 8 Tachwedd – Dim cyswllt gyda Vericlim. Cyfarfod brys o Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo

Barn yr aelodau oedd i ddymchwel y lloches unwaith y bydd aseswr Zurich yn ymweld y safle.

Gofynnwyd i'r Rheolwr gysylltu eto gyda Zurich gan ddatgan nad yw yr aseswr wedi cysylltu.

Roedd yr aelodau oll yn cytuno i osod lloches haearn ar y safle , gyda panelau clir ar pob ochr. Mae'n debyg y byddai hyn yn arbed arian i'r yswirwyr.

Nododd y Rheolwr fod Uned Cludiant Cyngor Gwynedd wedi cynnig gwasanaeth prynu lloches a gosod lloches gyda'r Cyngor Cymuned dalu wedi cyflawni y gwaith.

Aelodau hefyd yn cytuno fod y Rheolwr yn cysylltu gyda adeiladwr ddymchwel y lloches os ydi'r aseswr yn cytuno ac yn ei ariannu.

AJW yn nodi efallai y bydd angen hawl cynllunio os daw gwrthwynebiad gan trigolion

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) Fod y Cyngor yn cytuno gyda argymhelliad y Pwyllgor i ddymchwel y safle oherwydd ei gyflwr peryglus ac fod y Rheolwr yn cael hawl gweithredu**
- ii) Fod y Cyngor yn cytuno gyda argymhelliad y Pwyllgor i osod lloches bws gwyrdd i ddisodli y lloches presennol gan nodi efallai y bydd angen hawl cynllunio.**

Recommendation to the Council –

- i) For the Council to agree with the Committees recommendation to demolish the shelter due to it's dangerous condition and to give the Manager the right to implement.***
- ii) For the Council to agree with the Committees recommendation to replace the shelter with a green panelled bus shelter whilst noting that this could require planning permission***

Daeth y cyfarfod i ben am 7:35 yr hwyr / Meeting closed at 7.35pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	